**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-556
Ein cyf/Our ref EH/03036/14

William Powell AC

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

14 Awst 2014

Annwyl William

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 30 ynglŷn â Deiseb P-04-556 'Na i gau Cyffordd 41'.

O ran cau'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41 yr M4 yn rhan amser, dechreuodd y cyfnod treialu ar 4 Awst, a bydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2015. Mae'r ffordd ar gau rhwng 0700-0900 a 1600-1800 o ddydd Llun tan ddydd Gwener. Bydd y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41 yn agored bob amser yn ystod y cyfnod hwnnw.

Bûm mewn cyfarfod â chynrychiolwyr Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar 4 Mehefin i drafod cau'r ffordd ac i gytuno sut y byddwn yn rhannu gwybodaeth wrth i'r cyfnod treialu fynd rhagddo. Roedd y Cynghorydd Ali Thomas, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Steve Redmore, Rheolwr Canolfan Siopa Aberafan; a Steve Garvey, Cadeirydd Siambr Fasnach Port Talbot yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Roedd y Canon Nigel Cahill a Rose David yno hefyd yn cynrychioli'r gymuned.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Er mwyn gweld a fydd cau'r ffordd yn cael effaith ar fasnachwyr a busnesau yng nghanol y dref, byddwn yn defnyddio data am y tocynnau a werthir ym maes parcio canol tref Port Talbot i weld faint fydd yn ei ddefnyddio. Byddwn hefyd yn monitro data am nifer yr ymwelwyr â Chanolfan Siopa Aberafan cyn y cyfnod treialu ac yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r Cyngor yn monitro ansawdd yr aer.

Codwyd arwyddion dros dro cyn y ffordd ymuno i roi gwybod i yrwyr pryd mae'r ffordd honno ar gau, ac mae yno hefyd negeseuon electronig yn ystod yr adegau pan fo ar gau er mwyn rhybuddio gyrwyr am hynny. Darparwyd llwybr gwyro ac arno arwyddion ar gyfer y traffig yr effeithir arno.

Mae gwybodaeth am y cyfnod treialu i'w gweld yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd Port Talbot, yng Nghanolfan Siopa Aberafan, Eglwys y Santes Agnes ac Eglwys y Santes Fair. Mae rhagor o wybodaeth am y cyfnod treialu i'w gweld hefyd ar wefan Traffig Cymru:
http://www.traffic-wales.com/VoyagerNews.aspx?NEWSID=1214

Byddwn yn gwahodd y cyhoedd i gyflwyno sylwadau ar wefan Traffig Cymru rhwng mis Hydref 2014 a mis Mawrth 2015, cyn inni fynd ati i adolygu'r effaith y bydd cau'r ffordd yn ystod yr oriau brig wedi'i chael, a chyn inni benderfynu ar y ffordd ymlaen.

Byddem yn ymgynghori â'r cyhoedd pe bai unrhyw fwriad i gau'r ffordd yn barhaol.

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn ystod yr astudiaeth, gan gynnwys amryfal opsiynau o ran cau'r ffordd a chaniatáu i draffig ddefnyddio'r llain galed. Ategir yr opsiynau hynny drwy wella'r modd y gorfodir terfynau cyflymder, naill ai drwy ddefnyddio terfynau cyflymder newidiol neu gyflymder cyfartalog. Diystyrwyd yr opsiwn o ganiatáu i draffig ddefnyddio'r llain galed, a hynny ar sail diogelwch a gwerth am arian. Penderfynwyd mai gorfodi cyflymder cyfartalog oedd y dewis gorau o ran gorfodi terfynau cyflymder, ac mae'r system honno'n cael ei gosod ar hyn o bryd.

Bydd modd mynd i Barcffordd Port Talbot o hyd drwy ddefnyddio Cyffordd 40.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a chyda chynrychiolwyr lleol er mwyn sicrhau bod y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith mewn modd mor hwylus â phosibl.